# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 16 Hydref 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Douglas Massie Fowlie (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint ap Ifan Bebb, R Ll Jones, Llio Angharad Owen, Keith Roberts, Alwen Pennant Watkin, Arfon Wyn, Sonia Williams ac Ieuan Williams<br><br>Aelodau Portffolio<br>Y Cynghorwyr Alun Roberts (Aelod Portffolio - Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Neville Evans (Aelod Portffolio - Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio - Addysg a'r Gymraeg) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (AO)<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Rheolwr Sgriwtini (AD)<br>Swyddog Sgriwtini (EA)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Siobhan Gothorp (Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru)<br>Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd ac Aelod Portffolio - Datblygu Economaidd), Nicola Roberts (Aelod Portffolio - Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio - Cyllid a Thai). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Jackie Lewis.<br>Gillian Thompson, Wenda Owen a John Tierney (Aelodau Cyfetholedig); Rhys H. Hughes (Dirprwy Brif Weithredwr), Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant). |

---

**1 ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Sonia Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer gweddill blwyddyn ddinesig 2024/2025.**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Medi 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2023/24

Cyflwynwyd, i’r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2023/24.

Cyflwynwyd yr eitem hon gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol. Mae hwn yn adroddiad statudol y mae’n rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei baratoi, ei gyhoeddi a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, yn unol ag Adran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Pwrpas yr adroddiad yw darparu gwybodaeth i Bartneriaid ynglŷn â’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a’i weithgareddau yn ystod 2023/24. Mae Cyngor Sir Ynys Môn, fel Awdurdod Lleol, yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd, ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a nifer o sefydliadau ac asiantaethau eraill, yn ogystal ag aelodau o’r trydydd sector. Amcanion allweddol y Bwrdd yw:

- cydweithio er mwyn integreiddio ffrydiau gwaith
- gwella gofal a chymorth er mwyn sicrhau fod gan unigolion fwy o lais mewn perthynas ag iechyd a lles preswylwyr
- darparu gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn
- defnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol oherwydd y pwysau sy’n wynebu gwasanaethau rheng flaen

Disgrifiodd yr Aelod Portffolio sut fyddai gweithio mewn partneriaeth o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a chyda phartneriaid yn cynorthwyo i ddatblygu cymunedau a gwasanaethau gwydn ar gyfer unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Cyflwynodd Siobhan Gothorp, Rheolwr Busnes Rhanbarthol Tîm Cefnogi Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, drosolwg o Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023/24:

- Roedd prif lwyddiannau’r Bwrdd yn cynnwys gwireddu rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gwerth £32.8 miliwn sy’n cynnwys 141 o gynlluniau/gwasanaethau ar hyd a lled Gogledd Cymru.
- Datblygu Cynllun Cyfalaf Strategol Rhanbarthol 10 mlynedd sy’n cynnwys 31 o Gynlluniau Cyfalaf.
- Sefydlu Llwybr Cymorth Cof Rhanbarthol sy’n darparu gwasanaeth di-dor ar draws y Partneriaid, gan gydweithio i ddarparu cyngor a chymorth mewn perthynas â phryderon cyn yr asesiad ac ar ôl derbyn diagnosis er mwyn sicrhau llwybr teg.
- Sefydlu Canolfannau Dementia yn y 6 sir gan ddefnyddio cronfa grant gwerth £390,000 dros gyfnod o 3 blynedd. Mae un Ganolfan Dementia barhaol wedi’i lleoli ar Ynys Môn, yn Hwb Cymunedol Glanhwfa yn Llangefni.
- Ym mis Ionawr 2024, sefydlwyd cynllun er mwyn ardystio a chydnabod Cymunedau Dementia Gyfeillgar Gogledd Cymru, i gymryd lle’r Cynllun Dementia Gyfeillgar Cenedlaethol blaenorol dan arweiniad y Gymdeithas Alzheimer’s. Yn sgil hynny, mae’r Bwrdd wedi llwyddo i ail-ardystio Cymunedau Dementia Gyfeillgar presennol a chynorthwyo canolfannau newydd, a rhai sy’n datblygu, i gael eu hardystio.
- Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2024 o dan strwythur llywodraethu diwygiedig, yn llwyddiant allweddol arall. Mae’n canolbwyntio ar flaenoriaethau ledled Gogledd Cymru er mwyn gwella bywydau plant â chyflyrau niwroamrywiol cymhleth, megis Awtistiaeth ac ADHD, sydd ar restrau aros hir i gael eu hasesu a chael diagnosis gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae Ynys Môn yn canolbwyntio’n benodol ar ymyrraeth gynnar ac atal trwy gyflwyno

timau amlddisgyblaethol yn seiliedig ar y bum ysgol Uwchradd a'r ysgolion cynradd yn nalgylchoedd yr ysgolion hynny.
- Datblygwyd strategaeth Rhanbarthol Cyflogaeth â Chymorth ar gyfer Anableddau Dysgu hefyd fel fframwaith i gefnogi pobl a sefydliadau er mwyn sicrhau fod pobl ag anableddau dysgu yn gallu byw bywyd annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys prosiect peilot i ddarparu mynediad at waith gyda thâl (sefydlwyd yn 2023).
- Yn olaf, tua diwedd 2023, sefydlwyd Grŵp Newyddion Da i gydlynu'r gwaith o rannu gwybodaeth am waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol trwy Swyddogion Cyfathrebu pob sefydliad partner.

Daeth y cyflwyniad i ben trwy nodi prif flaenoriaethau'r Bwrdd Datblygu Rhanbarthol ar gyfer 2024/25.
- Parhau i wireddu Rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a gwella canlyniadau a'r fframwaith werthuso.
- Diweddaru'r Cynllun Cyfalaf Strategol Rhanbarthol 10 mlynedd.
- Datblygu blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant.
- Model Cyflogaeth â Chymorth Anableddau Dysgu Rhanbarthol er mwyn sicrhau mynediad at waith gyda thâl.
- Parhau i ddatblygu'r Cod Ymarfer Awtistiaeth a'r Cynllun Gwella Niwroamrywiaeth, ynghyd â momentwm y cynllun Mwy Na Geiriau.
- Cynorthwyo i roi deddfwriaeth Diogelu newydd a chyfredol ar waith.
- Datblygu dull yng Ngogledd Cymru o ddefnyddio digidol, data a thechnoleg er mwyn galluogi gwasanaethau di-dor, integredig.

Cyflwynodd Ms Gothorp grynodeb lefel uchel o gynlluniau sy'n cael eu hariannu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar Ynys Môn. Mae'r cynlluniau hyn yn cyfateb i 10.35% o gyfanswm y gronfa (£1.76m yn ystod 2023/24) a defnyddiwyd yr arian i gefnogi 19 o wasanaethau a chynlluniau.
- Cefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl (£206k)
- Gwasanaethau gwerth cymdeithasol (£505k)
- Cyfalaf ar gyfer Cartrefi Clyd (£655k)
- Cyfalaf ar gyfer Hwb Llesiant Amlwch (£49k)
- Cyfalaf ar gyfer cartref gofal Dementia gyfeillgar (£115k)
- Cyfalaf ar gyfer astudiaeth o ddichonolrwydd cyfleuster gofal ychwanegol yn Ne Ynys Môn (£50k) a datblygu achos busnes amlinellol
- Arian i lunio achos busnes ar gyfer Canolfan Glanhwfa (£777k)

Dywedodd y Pwyllgor ei fod yn gwerthfawrogi'r adroddiad ac, yn sgil y wybodaeth a ddarparwyd, cododd yr Aelodau y materion canlynol i'w trafod:

- Gofynnwyd cwestiynau am effeithiolrwydd canlyniadau ar gyfer pob ymyrraeth a phrosiect a gefnogwyd gan y Bwrdd ac i ba raddau y mae ansawdd bywyd unigolion wedi gwella o ganlyniad i'r ymyraethau hyn. Gofynnodd yr Aelodau hefyd pa ganran o'r gwariant sy'n cael ei wario ar ganlyniadau uniongyrchol ar gyfer unigolion a pha ganran a ddyrennir ar staffio a chefnogaeth swyddfa gefn, ac i ba raddau y gellir dangos hyn ar ddangosfwrdd ar wefan y Bwrdd. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod tîm Cefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu adroddiad manwl, ar bob ffrwd ariannu, bob chwarter ac mae arfarniad manwl yn cael ei gyflwyno'n flynyddol ym mhob Rhanbarth, er mwyn darparu sicrwydd.
- Gofynnodd y Pwyllgor pa drefniadau a wnaed i'r Aelod Portffolio adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn cyfarfodydd allweddol gyda'r Bwrdd ac Awdurdodau Lleol eraill er mwyn rhoi diweddariad ar faterion allweddol. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol fod trefniadau ar waith i ddarparu adborth i'r Gwasanaeth. Cynigiodd y Prif Weithredwr weithred ar y cyd â'r

Pennaeth Democratiaeth, sef ystyried datblygu system adrodd rwydd ac effeithiol; byddai unrhyw opsiynau'n cael eu hystyried mewn cyfarfod gyda'r Arweinyddion Grwpiau yn y dyfodol.

- I ba raddau mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei brif flaenoriaethau ar gyfer 2023/24? Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio fod y Bwrdd yn fodlon â'r hyn a gyflawnwyd ganddo yn ystod 2023/24 er mwyn darparu cymorth i sicrhau fod gwahaniaeth yn cael ei wneud i fywydau unigolion. Cyfeiriwyd at y Ganolfan Ddementia yn Hwb Glanhwfa a'r cynllun Cartrefi Clyd fel enghreifftiau o lwyddiannau a gafodd effaith leol yn ystod 2023/24.
- Holwyd pa mor hygyrch yw'r Ganolfan Dementia yn Hwb Glanhwfa i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y Gwasanaeth yn cydnabod bod angen gwella mynediad i'r Ganolfan ac mae hynny'n derbyn sylw ar hyn o bryd.
- Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r angen i hyrwyddo a rhannu llwyddiannau'r Bwrdd a sut gellid gwneud hynny. Nododd y Bwrdd fod y Grŵp Stori Newyddion Da wedi cael ei sefydlu a bydd yn llywio'r maes gwaith pwysig hwn fesul chwarter. Nodwyd y byddai'r Bwrdd yn cydweithio â Thimau Cyfathrebu Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a digwyddiadau'n cael eu rhannu'n eang a'u bod yn derbyn cyhoeddusrwydd ar hyd a lled y Rhanbarth.
- Sut all y Bwrdd Partneriaeth gynorthwyo i liniaru rhai o'r heriau parhaus a'r pwysau ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol rheng flaen, o ystyried nad oes unrhyw arwydd y bydd y sefyllfa'n gwella'n sylweddol yn y tymor canol. Mewn ymateb, disgrifiodd Ms Gothorp rôl y Bwrdd o ran cynorthwyo Awdurdodau Lleol i rannu arfer dda ledled y rhanbarth drwy gyd-drafod mewn ymgais i leihau dyblygu ac annog arloesi. Mae'r Bwrdd hefyd yn parhau i hyrwyddo Gogledd Cymru mewn perthynas â chyfleoedd ariannu.

**Ar ôl adolygu Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023/24, a nodi ymatebion Swyddogion i'r pwyntiau trafod a godwyd, PENDERFYNWYD-**

- **Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei gyflawni.**

- **Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2023/24 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu datblygu drwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.**

-

**Gweithredoedd ychwanegol-**

- **Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol, ar y cyd â'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, yn gwahodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i greu dangosfwrdd lefel uchel i grynhoi canran yr arian sy'n cael ei wario ar ganlyniadau uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr a chanran y gwariant ar weinyddu fesul prosiect. Dylid cyhoeddi'r dangosfwrdd ar wefan y Bwrdd.**
- **Y Prif Weithredwr ar y cyd â'r Pennaeth Democratiaeth i ystyried a fyddai'n briodol datblygu proses i ganiatáu i'n cynrychiolwyr ar y Bwrdd Partneriaeth ddarparu adborth lefel uchel i'r Cyngor ar ganlyniadau / datblygiadau'r Bwrdd. Gwahodd Arweinyddion Grwpiau i ystyried y cynnig.**

5 **AROLYGIAETH GOFAL CYMRU: LLYTHYR GWIRIAD GWELLA AWDURDOD LLEOL - GWASANAETHAU OEDOLION CYNGOR SIR YNYS MÔN**

6

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor eu hystyried, Lythyr Gwiriad Gwella Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad a luniwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

Cyflwynwyd yr eitem gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol a nododd bod Arolygiaeth Gofal Cymru yn bresennol mewn cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar a bod yr Aelodau wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau sgriwtini allweddol. Cyfeiriodd yn fyr at gefndir yr arolygiad ar y Gwasanaethau Oedolion ym mis Mehefin 2024 a nododd bod cryfderau ac arfer dda wedi cael eu hamlygu, yn ogystal â meysydd i'w gwella. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, yn ogystal ag edrych ar gynnydd a wnaed yn dilyn yr arolygiad blaenorol a gwblhawyd ym mis Hydref 2022.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod yr adroddiad yn un cadarnhaol a'i fod yn tystio i'r cynnydd a wnaed ers yr arolygiad diwethaf yn erbyn yr 11 maes y nodwyd bod angen eu gwella.  Mae pum maes wedi cael eu gweithredu'n llawn erbyn hyn, ac mae angen cynnydd pellach mewn perthynas â'r chwe maes sy'n weddill. Ni nodwyd unrhyw feysydd risg penodol gan AGC. Mae'r adroddiad yn cymharu'n ffafriol ag adroddiadau Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Mae'r cynllun gwella'n cynnwys gweithredoedd allweddol yn gysylltiedig â'r 11 maes gwella a nodwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Llongyfarchodd y Prif Weithredwr y Gwasanaeth am dderbyn adroddiad cadarnhaol o ystyried y pwysau a'r heriau a wynebir wrth ddarparu gwasanaeth ar Ynys lle mae'r boblogaeth yn heneiddio.

Dywedodd y Pwyllgor ei fod yn gwerthfawrogi'r adroddiad. Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y Pwyllgor y materion allweddol canlynol yn benodol:-

- Roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 89% o bobl yn teimlo fod rhywun yn gwrando arnynt 'bob amser' neu'r 'rhan fwyaf o'r amser' ac roedd y Pwyllgor am wybod i ba raddau mae'r Gwasanaeth yn deall pam fod yr 11% sy'n weddill yn teimlo nad oedd rhywun yn gwrando arnynt, a beth sy'n cael ei wneud i ddatrys hyn. Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn credu fod canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol o ystyried natur heriol y Gwasanaeth a nododd pa mor bwysig yw cael trafodaeth agored a gonest gyda defnyddwyr gwasanaeth o'r cychwyn cyntaf.
- Gofynnwyd sut fyddai'r Gwasanaeth yn parhau i wella o ystyried yr heriau ariannol sy'n ein hwynebu ac argaeledd gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion sy'n cael eu hasesu, yn enwedig mewn perthynas â gofal tymor byr neu ofal seibiant. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion yn cydnabod yr her barhaus hon, ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i geisio darparu gwasanaethau gofal effeithiol mor agos â phosib at gymunedau lleol yr unigolion hynny. Disgrifiodd y sefyllfa barhaus lle mae'r galw am wasanaethau gofal yn cynyddu tra bod y cyllid yn lleihau.
- Pa gynlluniau sydd ar waith i fonitro cynnydd yn erbyn y meysydd sydd angen sylw? Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn cydnabod pa mor bwysig yw monitro'r rhaglen waith yn rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd yn unol â'r amserlenni a gyhoeddwyd. Mae'r rhaglen waith yn cael ei monitro'n fisol ar hyn o bryd, gan asesu'r ffordd orau o ddefnyddio arfer dda i ddysgu, rhannu a gwella.
- Holodd y Pwyllgor am ei rôl wrth fonitro'r rhaglen waith ac i ba raddau y dylai unrhyw adroddiadau monitro gynnwys enghreifftiau o sut mae gweithredoedd unigol

yn y rhaglen waith wedi cael eu gweithredu. Argymhellodd y Prif Weithredwr y dylid cyflwyno diweddariad ffurfiol i'r Pwyllgor ymhen 6 mis.
- Holodd yr Aelodau hefyd am ddyfodol y system feddalwedd genedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith o reoli achosion, cofnodi a monitro'r ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor bod cynlluniau ar y gweill i gyflwyno system feddalwedd genedlaethol newydd, sef *Connect in Care*, i gymryd lle'r system bresennol, system fydd yn cael ei defnyddio gan Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynigiwyd y dylid cynnwys y mater ar raglen Sesiwn Briffio Misol yr Aelodau ym mis Rhagfyr 2024.

Roedd yr Aelod Portffolio yn cydnabod pa mor bwysig yw rôl Aelodau Etholedig o ran herio'r Gwasanaeth, ac roedd yn cydnabod hefyd y gwaith da sy'n cael ei wneud gan swyddogion o fewn y Gwasanaeth.

**Ar ôl adolygu'r adroddiad a chynllun gweithredu'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, ynghyd â nodi ymatebion Swyddogion i'r pwyntiau trafod a godwyd, PENDERFYNWYD-**

- **Bod y Pwyllgor wedi ystyried llythyr Gwiriad Gwella Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn a gyhoeddwyd ar 22 Awst 2024.**

- **Bod y Pwyllgor wedi cyflwyno sylwadau ar yr adroddiad a chadarnhau bod y cynllun datblygu ynghlwm, a luniwyd gan y Gwasanaeth, yn adlewyrchu'r prif feysydd i'w gwella a'r ffordd orau o gynorthwyo i gefnogi gwaith y Gwasanaeth yn y dyfodol.**

**Gweithredoedd ychwanegol-**

- **Bod swyddogion yn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Pwyllgor, ymhen 6 mis, ar gynnydd wrth roi'r rhaglen waith ôl-arolygiad ar waith.**
- **Bod y bwriad i roi'r system feddalwedd genedlaethol newydd *Connect in Care* ar waith yn cael ei gynnwys fel mater i'w drafod yn ystod Sesiwn Briffio Misol Aelodau ym mis Rhagfyr 2024.**

## 6 ENWEBIADAU PWYLLGOR - PANELAU SGRIWTINI CYLLID AC ADDYSG

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Keith Roberts i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid.**

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Ieuan Williams i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Addysg.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Ebrill 2025.

**PENDERFYNWYD -**

- **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2024/25.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Flaen Raglen Waith.**

**Y CYNGHORYDD DOUGLAS FOWLIE**
**CADEIRYDD**